| | |
|---|---|
| **Hysbysiad Preifatrwydd Rhif:** | 005 |
| **Dyddiad Creu:** | 15/10/2019 |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | 21/08/2020 |
| **Rhif y Fersiwn:** | 1.2 |
| **Cyf y Ddogfen:** | |

**Manylion Cyswllt:** Uned Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol

Ffôn: 01443 864320
E-bost: RhyddidGwybodaeth@caerffili.gov.uk

**Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd ysgolion yng Nghaerffili yn prosesu gwybodaeth bersonol a ddarperir gennych amdanoch chi eich hun os byddwch yn gwneud cais am wybodaeth neu gais hawliau unigol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu ddeddfwriaeth Diogelu Data.

# Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

## Diben defnyddio eich gwybodaeth a'r sail gyfreithiol dros wneud hynny

### Diben prosesu

Bydd pob ysgol unigol yn prosesu eich cais, y wybodaeth sy'n ymwneud â'ch cais, eich enw a'ch manylion cyswllt er mwyn rhoi ymateb i chi. Bydd naill ai'n rhoi'r wybodaeth / yr hawl rydych wedi gwneud cais amdani, i chi neu byddwn yn esbonio'r rhesymau pam na allwn wneud hynny.

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi hawl gyffredinol i weld gwybodaeth wedi'i chofnodi a ddelir gan awdurdod cyhoeddus.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn rhoi hawl i weld gwybodaeth amgylcheddol a ddelir gan awdurdod cyhoeddus.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi nifer o hawl i destunau data (sef y rhai y mae'r wybodaeth yn ymwneud â nhw) mewn perthynas â gwybodaeth a ddelir amdanynt, a nodir yn yr adran 'Eich Hawliau' yn y ddogfen hon.

### Y sail gyfreithiol dros brosesu

Ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Mae gofyniad tasg gyhoeddus ar awdurdodau cyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth fel y nodir isod:

Adran 10(1) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
Rheoliad 5(1) o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

Er mwyn i'r gwaith o brosesu data fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a nodir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

*1e. processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller;*

Hawliau Diogelu Data

Mae gofyniad statudol i brosesu eich gwybodaeth fel y nodir isod:

Erthyglau 12-23 o'r UK Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Er mwyn i'r gwaith o brosesu data fod yn gyfreithlon o dan y UK Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a nodir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

*1(c) processing is necessary for compliance with a legal obligation to which the controller is subject.*

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi diogelwch ychwanegol i gategorïau penodol o wybodaeth a elwir yn 'ddata personol arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth dan sylw yn dod o dan y diffiniad o ddata personol arbennig, yna bydd yn rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel y nodir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

*2g. processing is necessary for reasons of substantial public interest, on the basis of Union or Member State law which shall be proportionate to the aim pursued, respect the essence of the right to data protection and provide for suitable and specific measures to safeguard the fundamental rights and the interests of the data subject;.*

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

**Pwy yw'r Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data?**

Rheolydd Data eich gwybodaeth yw'r ysgol rydych wedi cyflwyno eich cais iddi.

Mae'r Swyddog Diogelu Data wedi'i gontractio gan yr ysgol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r ysgol drwy ffonio 01443 864049 neu anfon e-bost i DiogeluData@caerffili.gov.uk

## Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Caiff eich cais, gan gynnwys eich enw a'ch manylion cyswllt, eu dosbarthu i rannau perthnasol adrannau ac aelodau perthnasol o'r Corff Llywodraethu a all fod yn dal y wybodaeth sy'n ymwneud â'ch cais at ddibenion prosesu eich cais a rhoi ymateb i chi.

Mae pob ysgol unigol yn cofnodi ceisiadau, yn dosbarthu ceisiadau i rannau perthnasol adrannau ac aelodau perthnasol o'r Corff Llywodraethu ac yn ymateb i geisiadau yn uniongyrchol fel y Rheolydd Data. Caiff ceisiadau am adolygiad mewnol o ymatebion i geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu gwynion ynghylch y ffordd y mae'r ysgol wedi ymdrin â chais i arfer eich hawliau o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data, eu gweinyddu gan bob ysgol yn uniongyrchol.

Mae'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynorthwyo'r broses drwy roi cyngor ar brosesu ceisiadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth briodol. Ar gyfer rhai ceisiadau, efallai y ceisir cyngor cyfreithiol ychwanegol gan Wasanaethau Cyfreithiol.

Gall ysgolion yng Nghaerffili gyhoeddi gwybodaeth ystadegol sy'n ymwneud â cheisiadau a gafwyd ac ymatebion a roddwyd, ond nid ar ffurf sy'n datgelu enw'r ymgeisydd. Gallwn hefyd gyhoeddi ceisiadau a gafwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a'r ymatebion a roddwyd iddynt ond, unwaith eto, nid ar ffurf sy'n datgelu enw'r ymgeisydd.

**Manylion am rannu eich gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Efallai y bydd yn ofynnol i ni rannu gwybodaeth benodol â sefydliadau penodol, ond dim ond gyda rheswm clir a sail gyfreithiol briodol o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Byddwn bob amser yn sicrhau bod data yn cael eu rhannu'n ddiogel.

| **Sefydliad** | **Rheswm** | **Sail Gyfreithiol** |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) | Rhoi cyngor a chymorth ynglŷn â hawliau testunau data o dan y Ddeddf Diogelu Rhyddid, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a deddfwriaeth Diogelu Data. Mae'r Swyddog Diogelu Data wedi'i gontractio yn rheoli cwynion neu bryderon ynghylch yr ysgol sy'n ymwneud â diogelu data. | Cydymffurfio â chontract (Erthygl 6 o'r UK Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) |
| Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | Darparu ystadegau er mwyn monitro cyfradd darged cydymffurfiaeth. | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 o'r UK Rheoliad Cyffredinol ar Reoli Data) |

Byddwch yn ymwybodol y gellir rhannu copïau o'ch cais, yr ymateb ac unrhyw ohebiaeth berthnasol ychwanegol rhyngoch chi a'r ysgol ag eraill (h.y. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth) os byddwch wedi gwneud cwyn mewn perthynas â'r ffordd y mae eich cais wedi'i brosesu.

Efallai y ceisir cyngor cyfreithiol allanol mewn perthynas â'r ffordd y mae eich cais wedi'i brosesu a dim ond os bydd yn berthnasol gwneud hynny y caiff eich enw ei ddatgelu.

| **Math o Gais** | **Gyda phwy y rhennir gwybodaeth** |
|---|---|
| Ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol | Efallai yr ymgynghorir â sefydliadau ac unigolion eraill y gallai datgelu'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani effeithio arnynt cyn penderfynu a ddylid ei datgelu. Ni chaiff eich enw na'ch manylion cyswllt eu rhyddhau. |

| | |
|---|---|
| Diogelu Data –<br>Cais Testun am Ddata | Efallai yr ymgynghorir â sefydliadau ac unigolion eraill y gallai datgelu'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani effeithio arnynt cyn penderfynu a ddylid ei datgelu. Efallai y caiff eich enw ei ryddhau. |
| Diogelu Data –<br>Hawliau mewn perthynas â chywiro a dileu data personol a chyfyngu ar brosesu data personol | Os bydd eich cais i gywiro neu ddileu data personol neu gyfyngu ar brosesu data personol yn llwyddiannus, bydd gan yr ysgol rwymedigaeth i hysbysu sefydliadau y gallwn fod wedi trosglwyddo'r wybodaeth iddynt, lle y bo'n bosibl. |

**Ceisiadau am wybodaeth**

Gellir gwneud cais am unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi a ddelir gan yr Ysgol o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data (UK Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018).

Os bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, lle y bo'n bosibl, bydd yr Ysgol yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, ni fyddwn yn rhyddhau eich gwybodaeth os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu hynny.

## Pa mor hir y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth?

**Manylion y cyfnod cadw**

Rydym yn cadw gwybodaeth yn ddiogel fel y pennir gan ofynion statudol neu arferion gorau. Bydd pob ysgol unigol yn cadw eich cais a'i hymateb am dair blynedd. Efallai y cedwir rhai ceisiadau ac ymatebion am fwy o amser ond byddant yn ddienw.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data**

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destunau data (y rhai y mae'r wybodaeth amdanynt), sy'n cynnwys:

- **Yr hawl i gael gwybod** sut mae data personol yn cael eu casglu, eu storio, eu rheoli, eu diogelu a'u prosesu.
- **Hawl fynediad** i ofyn am gopi o wybodaeth bersonol a ddelir amdanoch. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol y gellir gwrthod rhyddhau gwybodaeth weithiau yn gyfreithlon.
- **Yr hawl i gywiro** data personol anghywir neu anghyflawn.
- **Yr hawl i ddileu** lle mae gennych yr hawl i ofyn am i'ch data personol gael eu dileu o dan amgylchiadau penodol. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ddata personol y mae'n rhaid eu cadw o dan y gyfraith.
- **Yr hawl i gyfyngu**, sy'n eich galluogi i gyfyngu ar y ffordd rydym yn defnyddio eich data personol o dan amgylchiadau penodol.
- **Yr hawl i gludadwyedd,** sy'n rhoi'r hawl i unigolyn gael copïau o ddata a ddarparwyd i reolydd ar ffurf gludadwy.
- **Yr hawl i wrthwynebu** prosesu eich data personol; ac, yn olaf,
- **Hawliau sy'n ymwneud â phrosesau gwneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio.**

Mae gan blant a phobl ifanc hawliau penodol o dan ddeddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys hawl gyffredinol i weld data personol a ddelir gan sefydliad amdanynt. Fel arfer, tybir bod plentyn neu berson ifanc yn ddigon aeddfed i ddeall ei hawliau mynediad pan fydd yn 12 oed neu drosodd. Felly, dylai'r plentyn neu'r person ifanc naill ai gyflwyno cais am wybodaeth ei hun yn uniongyrchol i'r ysgol neu ddarparu llythyr awdurdodi er mwyn rhoi caniatâd i drydydd parti (h.y. rhiant neu ofalwr) weithredu ar ei ran. Byddai angen i riant sy'n gwneud cais am wybodaeth ar ran plentyn ddarparu prawf adnabod a phrawf o Gyfrifoldeb Rhiant.

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol fel y nodir ar frig y ddogfen hon. Cedwir copi o gais i arfer eich hawliau fel unigolyn a'r ymateb a roddwyd i chi am dair blynedd.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os na fyddwch yn fodlon ar y ffordd y mae'r Ysgol wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol gan nodi eich pryderon yn y lle cyntaf.

Os byddwch yn anfodlon o hyd, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r ysgol drwy ffonio 01443 864322 neu drwy anfon e-bost i DiogeluData@caerffili.gov.uk

Mae gennych yr hawl hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio'r Ddeddf Diogelu Data yn y DU, asesu a yw'r gwaith o brosesu gwybodaeth bersonol yn debygol o gydymffurfio â darpariaethau ein cyfrifoldebau deddfwriaethol ai peidio. Ceir rhagor o wybodaeth am eich hawliau yn: www.ico.org.uk.